

## CWRDD Â NHW



Mae Charlotte yn wyddonydd meddygol sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn cwmni sy'n darparu addysg a chyngor i feddygon a chleifion. Roedd Charlotte yn arfer gweithio fel ymchwilydd gwyddonol mewn ysbyty yn Llundain – treuliodd 4 blynedd yno'n ymchwilio i sut i drawsblannu celloedd yr iau/afu i blant sydd wedi cael niwed i'w iau/afu. Ei gwaith oedd ceisio cadw'r celloedd yn fyw a sicrhau eu bod yn gweithio am gymaint o amser â phosib. Byddai iau/afu'r claf yn cael amser wedyn i wella, ac yna i weithio yn y modd arferol heb fod angen trawsblaniad.

**Gwyliwch y Fideo (18 MUNUD)**

## GWEITHGAREDD: CELLOEDD BLASUS

*Adnoddau: bisged ddigestif, eisin, botymau siocled, careiau mefus, resins, 'sprinkles', 'M&M's'*

Os nad yw'r adnoddau hyn ar gael ar eich cyfer, gallwch ddefnyddio papur lliw a siswrn a thorri siapiau bob un o nodweddion y gell. Dylech geisio defnyddio papur o liw gwahanol ar gyfer bob nodwedd, fel y gellir eu hadnabod yn hawdd.

Gofalwch eich bod yn meddwl am alergeddau a gofynion dietegol, gellir defnyddio eitemau sy'n fwy addas ar gyfer eich gofynion yn lle'r pethau da/siocledi y cyfeiriwyd atynt yn y gweithgaredd hwn.

Rhan o fiocemeg yw edrych ar gelloedd sy'n gwneud organebau byw. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, byddwch yn edrych ar y strwythurau sy'n gwneud cell anifail.

- 1 Cymerwch fisged ddigestif a gorchuddiwch hi ag eisin, bydd yr eisin yn gweithredu fel Cytoplasm. .

**Beth yw cytoplasm?**

.....

- 2 Rhowch fotwm siocled yng nghanol y fisged, hwn fydd y niwclews.

**Beth yw rôl y niwclews?**

.....

**3** Rhowch un o'r careiau mefus o amgylch y tu allan i'r gell. Hon yw'r gellbilen.

**Beth yw rôl y gellbilen?**

.....

**4** Rhowch resins yn y gell, y rhain fydd y mitochondria.

**Beth yw swyddogaeth y mitochondria?**

.....

**5** Ychwanegwch glystyrau bach o 'sprinkles', bydd y rhain yn gweithredu fel y ribosomau.

**Beth yw ribosomau?**

.....

Yn olaf, mwynhewch eich celloedd blasus!



**Estyniad: Ychwanegu cwpl o M&M, bydd y rhain yn lysosomau.**

**Beth yw lysosomau?**